**Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 - Cymalau Gweithiau Cyhoeddus Cymdeithasol a Chymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol hysbysiad preifatrwydd Proses Hysbysu Eithriad**

Bydd angen i Broses Hysbysu Eithriad Cymalau Gweithiau a Gweithlu Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (y Ddeddf) ar gyfer Awdurdodau Contractio Cymru (WCAs) gasglu rhywfaint o wybodaeth bersonol gan Awdurdodau Contractio Cymru os gofynnwch i Weinidogion Cymru am eithriad i'r dyletswyddau a osodir ar eich sefydliad gan y Ddeddf. Llywodraeth Cymru fydd y rheolwr ar gyfer yr wybodaeth hon, a byddwn yn ei phrosesu yn unol â'n tasg gyhoeddus a'r awdurdod swyddogol a roddwyd i ni.

Bydd yr wybodaeth a roddir gan Awdurdodau Contractio Cymru yn cael ei defnyddio i asesu eich cais am eithriad o'r dyletswyddau a nodir yn y Ddeddf. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn cefnogi'r gwaith o lunio argymhellion priodol i Weinidogion Cymru.

**Gyda phwy y byddwn yn rhannu eich data**

Gellir rhannu data personol, os oes angen, gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ac is-grŵp Caffael y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol i ystyried yr hysbysiad eithriad.

Os ceir gwybodaeth gan sefydliad nad yw wedi'i nodi uchod, byddwn yn gallu nodi a chadarnhau enw'r sefydliad hwnnw.

**Am ba hyd y byddwn yn cadw eich data**

Bydd eich data personol yn cael ei gadw am gyfnod o dair blynedd o'r dyddiad y bydd eich pryder neu ymholiad wedi'i gwblhau.

**Eich hawliau**

Mae gennych yr hawl i ofyn am wybodaeth am sut mae eich data personol yn cael ei brosesu, ac i ofyn am gopi o'r data personol hwnnw.

Mae gennych yr hawl i ofyn am gywiro unrhyw anghywirdebau yn eich data personol heb oedi.

Mae gennych yr hawl i ofyn am gwblhau unrhyw ddata personol anghyflawn, gan gynnwys drwy ddatganiad atodol.

Mae gennych yr hawl i ofyn am ddileu eich data personol os nad oes cyfiawnhad mwyach dros ei brosesu.

Mae gennych yr hawl mewn rhai amgylchiadau (er enghraifft, pan fo cywirdeb yn cael ei herio) i ofyn am gyfyngu ar brosesu eich data personol.

Mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol pan gaiff ei brosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol.

Mae gennych yr hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol.

Mae gennych yr hawl i ofyn am gopi o unrhyw ddata personol rydych chi wedi'i roi, ac i hyn gael ei roi mewn fformat strwythuredig, a ddefnyddir yn gyffredin ac y gellir ei ddarllen gan beiriant.

**Manylion cyswllt**

Am ragor o wybodaeth am yr wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru a'i defnydd, neu os ydych chi eisiau arfer eich hawliau o dan y GDPR, gweler y manylion cyswllt isod:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

E-bost:
DeddfSPPP.EsemptiadauAdeiladu@llyw.cymru
SPPP.EsemptiadauGweithlu@llyw.cymru

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg / We welcome correspondence in Welsh.*

**Swyddog Diogelu Data**

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

E-bost: Swyddogdiogeludata@llyw.cymru

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg / We welcome correspondence in Welsh.*

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Ffôn:** 0303 123 1113

**Gwefan**